# Mari Ellis yn cofio BOB OWEN

## NEU EFALLAI COFIO CAPEL SILOAM, LLANFROTHEN

Wrth fynd o Aberystwyth i'r Waunfawr yn Arfon, byddwn yn troi ym Maentwrog a mynd trwy'r Rhyd a'r Garreg, Llanfrothen. Felly byddwn yn mynd heibio i gapel Siloam ar y dde wrth ddyfod i lawr rhiw Ceunant. Golwg digon di-raen sydd arno, ond mi fyddaf yn cofio'r amser braf a dreuliais o'i gwmpas pan oeddwn i'n blentyn yn chwarae efo fy ffrind Dilys, oedd yn byw yn un o'r tai y tu cefn.

Darllenais mewn papur newydd ddechrau'r flwyddyn fod perchnogion y capel, sy'n byw yn Bala-no (tŷ capel yw'r enw yn y papur) yn sôn am gael stiwdio ffilmiau yno. Wn i ddim beth a ddigwyddodd ers hynny, ond mae gwahanol ddarluniau, fel ffilm yn gwibio, y naill ar ôl y llall o flaen fy llygaid i wrth feddwl am Siloam.



*Bob Owen Croesor.*


Un darlun sy'n glir iawn yn fy mhen yw'r un o briodas Bob Owen, Croesor, ond Morfa Glas bryd hynny, a Nel, morwyn y Wern. O fan arall y deallais i mai 1923 oedd y flwyddyn ac mai ar fore dydd Llun ym mis Mehefin y bu'r briodas. Fydd plant ddim yn cofio manylion felly. Gofynasai'r ysgolfeistr, Mr J. Ellis Williams i'r rhai ohonom oedd yn bwyta ein cinio yn yr ysgol fynd draw i Siloam a thaflu blodau o flaen y pâr priod wrth iddynt ddyfod o'r capel. 'Does gen i ddim cof o gwbl lle cawsom ni'r blodau, 'roedd digonedd o rai gwylltion yn tyfu yn y gwrychoedd, a rhaid ein bod wedi eu hel ar y ffordd yno. Buom yn loetran (ein gair ni) am hir cyn mynd at ddrws y capel ond yr oedd dwy res ohonom o boptu'r drws pan agorodd, a Bob a'i wraig yn ymddangos a chael eu pledu gyda blodau.

Yr oeddwn i'n gyfarwydd â'r ddau: deuai Bob Owen i'r Rheithordy at fy nhad i siarad am lyfrau, cael copïau o Gronicl S.R. (am ddim!) ac i ddarllen hen gofrestri'r plwyf. Byddai'n beirniadu yn ein cyfarfodydd cystadleuol yn aml.

Gwelwn Nel pan awn i'r Wern ar neges. Yr oedd hynny cyn i Thomas Richards a'i deulu ddyfod i fyw yno. Grace Owen oedd yn ffermio'r Wern, a'i nith, Jenat, yr un oed â mi. I blentyn ymddangosai Nel yn llafnes dal, yn gyrru'r gwaith drwy ei dwylo. Dyna syndod a gefais, flynyddoedd wedyn, ei chyfarfod mewn eisteddfod genedlaethol a gweld mai gwraig fechan, yr un taldra â fi oedd hi.

Darlun arall sydd ar fy nghof yw'r un o Leila Meganne yn cynnal cyngerdd, a minnau'n dotio at ei gwisg yn llawn cymaint â'i llais. Pan esgynnai risiau'r pulpud, diosgai rhyw glogyn lliwgar, moethus yr olwg. Wn i ddim beth a ganodd, ac ni fedraf ddweud â'm llaw ar fy nghalon mai Mrs Lloyd George a gadeiriai'r cyngerdd. Ond dyna'r argraff sydd gen i.

Gallaf gofio bod mewn cyngerdd arall lle'r adroddai rhyw ferch ddarn dramatig am ŵr ifanc yn canu emyn wrth suddo mewn cwch neu long ar y môr. Rhoddwyd y canwr i sefyll o'r golwg yn y cyntedd, a ninnau'n ei glywed yn canu'r emyn. Bloeddiai'r adroddreg 'Eto, John,' i'w annog ymlaen, a chanodd yntau ar y dôn Eifionydd nes gwefreiddio pawb. Gwnaeth y perfformiad argraff ddofn arnaf, mae'n rhaid. Clywais Gwilym Williams, y cyn-Archesgob yn dweud iddo yntau glywed rhywbeth tebyg ym Mhenisa'r-waun.



*Dilys o flaen Capel Siloam, Llanfrothen*

Fûm i erioed mewn oedfa yn Siloam, ond aeth fy nhad yno i wrando ar y Parch. Thomas Charles Williams yn pregethu. Yr oedd Sasiwn y Methodistiaid ym Mhenrhyndeudraeth ym mis Ebrill 1922, a'r capeli lleol yn cael cyfle i glywed yr hoelion wyth. A chofio'r cyfnod, dim ond dwy flynedd ar ôl i'r Datgysylltiad ddyfod yn ffaith, yr oedd hi'n dipyn o syndod i weld person y plwyf yn y sêt fawr.

Cofiaf fod mewn dwy ddarlith yno. Cyfarfod dirwest i ferched oedd yr achlysur cyntaf, a Mair Ogwen yn annerch. Aeth fy mam i wrando arni yn y prynhawn a dyfod â hi adre i de; dwy o Fethesda oedden nhw. Yn yr hwyr y cefais i fynd efo Dilys a'i chwaer Margiad, a gwrando'n gegrwth ar storïau'r wraig ddawnus hon. Golygydd y cylchgrawn *Y Gymraes* oedd hi, yn olynydd i Ceridwen Peris.

Y darlithydd arall a gofiaf yw Llew Tegid, gŵr ffraeth, er na chofiaf yr un o'i straeon. Darlithiai ar ofergoelion y Cymry. Dyna'r unig dro i mi ei weld ond cyfarfûm â'i weddw yn ei hen ddyddiau.

Ond mae yna un adroddiad y gallaf gofio bron bob gair ohono; fe'i clywais mewn eisteddfod yn Siloam. Darn o Stryd Balchder, allan o *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* ydoedd. Ni fu rhagbrawf ac felly clywais y geiriau '. . . O ben y murddun yma . . .' lawer gwaith drosodd, ynghyd â'r ymadroddion 'fel llong ar lawn hwyl . . .', 'werth tyddyn da o berlau . . .', a '. . . llawer ysgogyn rhygyngog a allai ridyllio ffa wrth wynt ei gynffon', yn ddiweddglo. Os gwnaeth y darn y fath argraff ar blentyn ysgol, pa ddylanwad a gafodd ar yr adroddwyr?

Yr unig gân a gofiaf o'r eisteddfod honno oedd y ddeuawd 'Siglo, siglo, cwch bach fy Iolo . . .' ac mi fuaswn yn falch o'i chlywed eto.

A minnau'n eglwysreg o hil gerdd, mae'n rhyfedd y gafael sydd gan yr hen gapel ynof. A dyna Dilys hithau, yn dal yn ffyddlon drwy'r blynyddoedd. Brawd i'w thaid oedd y gŵr y bu cymaint o stŵr wrth geisio'i gladdu ym mynwent Llanfrothen, a'r helynt yn dyfod â Lloyd George ifanc i amlygrwydd.

Rhyfedd yw troeon yr yrfa!


**RAFFL**

**CYMDEITHAS BOB OWEN**

**LLU O WOBRAU!**

(Punt y llyfr neu 20c y tocyn)

*Gellir eu prynu yn eich siopau llyfrau lleol, yr Eisteddfod Genedlaethol neu oddi wrth yr Ysgrifennydd, Trysorydd neu'r Golygydd.*

**BYDD EICH CEFNOGAETH YN SICRHAU PARHAD *Y CASGLWR***